

# Tecstio 61016 am droseddau rhywiol

Os ydych chi eisiau dweud wrthym am ddigwyddiad sydd dim angen ymateb brys gallwch anfon neges destun atom ar 61016 i roi gwybod i ni beth ddigwyddodd, ble y digwyddodd a phryd.

Rydym yn deall yn llwyr, os ydych chi'n profi ymddygiad rhywiol digroeso, efallai yr hoffech chi anghofio amdano a symud ymlaen. Fodd bynnag, gall adrodd ein helpu i'w atal rhag digwydd eto. Nid yw unrhyw ddigwyddiad yn cael ei ystyried yn fach nac yn ddibwys, gan fod ein swyddogion wedi'u hyfforddi i ddelio â phob math o achosion. Byddwch bob amser yn cael eich cymryd o ddifrif.

**Trwy tecstio 61016 gallwch riportio unrhyw ymddygiad sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus neu riportio os ydych chi'n dyst i ddigwyddiad, fel:**

- Cyffwrdd / Gropio
- Rhwbio yn erbyn rhywun
- Mastyrbio
- Rhywun yn datgelu ei hun
- Tynnu lluniau o natur rywiol heb gydsyniad
- Sylwadau rhywiol
- Syllu
- Gweithredoedd anwedus

Does dim raid i chi brofi ei bod yn drosedd neu'n weithred fwriadol i'w riportio; byddwn yn ymchwilio hynny i gyd i chi.

Ffoniwch 999 bob amser pan fydd angen ymateb brys yr heddlu arnoch chi, mewn achosion fel:

- Mae trosedd yn digwydd ar hyn o bryd
- Mae rhywun sy'n cael ei amau o drosedd gerllaw
- Mae rhywun wedi'i anafu, dan fygythiad neu mewn perygl

**Mae'r rhif testun 61016 yn cael ei fonitro 24/7 ac er ein bod yn anelu i ymateb cyn gynted â hosibl, mae'n well defnyddio 999 os oes angen ymateb yr heddlu ar unwaith.**

**Gallwch hefyd e-bostio: [first\\_contact@btp.police.uk](mailto:first_contact@btp.police.uk) neu ffonio 0800 40 50 40**

Mae person yn tecstio 61016 i ddweud ei fod yn adnabod unigolyn ar ei drên o'r adeg yr ymosodwyd arno yn rhywiol beth amser yn ôl.

Cyfarfu swyddogion â'r trên ac arestio'r unigolyn.

## 1 Danfon neges destun at 61016

### Beth digwyddodd?

E.e. Wedi'i gropio gan ddyn gwyn tal, main, yn gwisgo tei coch...

### Ble?

E.e..... ar llwybr Gogledd y tiwb yn teithio tua'r gogledd rhwng Oval a Kennington...

### Pryd?

E.e.... ar ddydd Llun 19 Chwefror am 8:45 yb.

Cynhwyswch unrhyw fanylion y credwch a fyddai o gymorth wrth adnabod yr unigolyn.

Peidiwch â phoeni os na allwch ddarparu'r manylion penodol hyn; gall unrhyw wybodaeth y gallwch ei darparu ein helpu i adeiladu llun o droseddwr pan fyddwn yn llunio'r adroddiadau hyn.

Gallwch hefyd anfon neges destun atom yn ddiennw os dymunwch. Nid oes rhaid i chi gynnwys eich enw nac unrhyw fanylion personol yn eich neges. Ni fyddwn yn ceisio darganfod pwy ydych chi os ydych wedi anfon neges yn ddiennw; fodd bynnag, gall fod achlysuron prin lle mae hyn yn hollol angenrheidiol.

*\*Efallai y bydd eich darparwr gwasanaeth symudol yn codi tâl bach*

## 2 Tecst wedi'i dderbyn gan ein Canolfan Gyswllt

Bydd y Triniwr Cyswllt yn creu cofnod digwyddiad gyda'r holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y neges ac yn aseiniol'r radd ymateb briodol. Bydd y log yn cael ei anfon ymlaen i'n Hystafell Reoli Heddlu i gael ymateb cychwynnol gan yr heddlu.

## 3 Tecstiwch yn ôl i gadarnhau bod eich neges wedi'i derbyn

Os yw'ch adroddiad yn ddigwyddiad byw, parhaus, fe'ch hysbysir o'r rhif log ac fe'ch cynghorir y byddwn yn eich ffonio ar eich rhif ffôn symudol yn fuan, os na allwch gymryd yr alwad, rhowch wybod i ni.

Efallai y gofynnir cwestiynau penodol i chi hefyd a allai fod yn ofynnol i gynorthwyo ymateb cychwynnol yr heddlu. Os yw'n ddiogel ichi wneud hynny efallai y byddwn yn gofyn i chi anfon llun neu fideo o'r person rydych chi'n cysylltu â ni amdano i [61016@btp.pnn.police.uk](mailto:61016@btp.pnn.police.uk) ynghyd â'r rhif log a ddarperir i'n cynorthwyo i gysylltu'r llun / fideo i'r log neges testun.

Efallai y gofynnir i chi, os ydych chi mewn gorsaf reilffordd neu ar y trên a'ch bod yn gweld ein swyddogion i wneud eich hun yn hysbys iddynt dim ond os ydych chi'n teimlo'n ddiogel ac yn gyffyrddus i wneud hynny, gan y bydd hyn yn cynorthwyo ein hymchwiliad cychwynnol.

Os yw'ch adroddiad yn ymwneud â digwyddiad nad yw'n fyw neu'n barhaus, fe'ch hysbysir o'r rhif log ac fe'ch cynghorir y byddwn yn eich ffonio cyn bo hir, os na allwch gymryd yr alwad, rhowch wybod i ni.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

## 6 Os yw'r troseddwr yn cael ei ddal

Os byddwn yn dod o hyd i'r troseddwr ac yn ei arestio, efallai y bydd angen i chi ddod i orsaf yr heddlu i gael proses adnabod. Gwneir penderfyniad ynghylch a ddylid cyhuddo'r person. Os ydyn nhw, bydd yn rhaid iddyn nhw ymddangos yn y llys.

## 7 Mynd i'r llys

Byddwn yn eich cefnogi trwy unrhyw erlyniad dilynol, pe bai hynny'n arwain at achos llys neu fel arall. Os yw'r troseddwr yn cael ei ddal ac yn pledio'n ddieuog, bydd gwrandawriad. Byddwn yn eich cefnogi trwy'r broses cyfiawnder troseddol.

## 4 Galwad yn ôl i gasglu gwybodaeth bellach

## 5 Rhoi datganiad

Ar ôl i chi creu adroddiad efallai y byddwn yn gofyn i chi wneud datganiad ffurfiol os ydych chi'n dymuno gwneud un, ond does dim rhaid i chi wneud hynny. Does dim rhaid i chi fynd i orsaf heddlu; gallwn ymweld â chi lle rydych chi'n teimlo'n fwyaf cyfforddus. Ni fyddwn yn dweud wrth eich rhieni / partner ond efallai y byddwch chi'n dewis i fodd bynnag, os ydych chi o dan 18 oed, bydd angen gwarcheidwad gyda chi pan fyddwch chi'n gwneud eich datganiad.

Os nad ydych chi am wneud datganiad does dim rhaid i chi wneud hynny, ond gall rhoi un ein helpu i adnabod a dal troseddwr ac atal eraill rhag profi ymddygiad rhywiol digreoso.